Croeso nôl

Braf yw croesawu Mrs Gillian Jones, athrawes y dosbarth Derbyn yn ôl atom. Roedd y plant bach wrth eu bodd yn ei gweld nôl.

Myfyrwyr

Yn ystod yr hanner tymor hwn byddwn yn cael cwmni pedwar myfyriwr. Bydd Carys Davies a Nerys Davies yn gweithio yn adran y babanod a bydd Ruth Davies a Llŷr Meredith yn gweithio yn yr adran Iau. Gobeithio y byddant yn hapus yn ein plith.

Profiad Gwaith

Bu Emma Evans a Lisa Evans o Ysgol Penweddig ar gyfnod o brofiad gwaith gyda ni'n ddiweddar. Braf oedd cael eu cwmni a gobeithio iddynt elwa o'r profiad.

Chwaraeon

Mae'r tîmau hoci a pêl-droed wedi bod yn chwarae'n rheolaidd ar fore Sadwrn. Da iawn chi blant, daliwch ati.

Treasure Island

Cafwyd perfformiad cofiadwy o 'Treasure Island' pan ymwelodd cwmni drama 'Theatr for Youth' â'r ysgol yn ddiweddar. Roedd y plant wrth eu bodd yn canu a chyd-actio.